

Cyfeirnod: IR769

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ionawr 2021

Aelodaeth Stonewall Cymru

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth 6 Ionawr lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am Aelodaeth Stonewall.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

1. Y dyddiad cyntaf y daeth Swyddfa Archwilio Cymru yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall Cymru a chadarnhau a ydych yn dal i fod yn aelod.

Ers 2017, ac ydym, rydym dal i fod yn aelod.

2. Swm y ffioedd aelodaeth a dalwyd i Stonewall Cymru ers ymuno â'u rhaglen Amrywiaeth.

£2500 y flwyddyn ers 2017

3. Buddion a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r Aelodaeth hon.

Rhestrir y manteision ar wefan Stonewall sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol, o dan y pennawd "buddion allweddol":

<https://www.stonewall.org.uk/diversity-champions-programme>

Gan fod y wybodaeth hon yn rhesymol hygyrch i chi drwy ddulliau eraill, mae hyn wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu o dan adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os hoffech ofyn am adolygiad mewnol ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Tel: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth